CYNGOR TYWYDD OER I FUSNESAU

Sicrhewch fod eich busnes yn barod am fisoedd oer y gaeaf trwy ddarllen trwy'r cynghorion isod.

Gyda'r gaeaf yn nesáu, mae hi'n bwysig eich bod chi'n sicrhau bod eich busnes yn barod am dywydd oer ac amodau gaeafol.

Mae adeiladau â phibellau agored neu adeiladau sy'n wag am ddyddiau'n aml yn y perygl mwyaf am na fydd neb yn sylwi bod pibell wedi byrstio y tu fewn neu'r tu allan i'r adeilad, ac felly gallai llawer iawn o ddŵr ddianc.

Isod mae cynghorion pwysig sy'n berthnasol i bob math o fusnesau:



Lapiwch bibellau a thapiau sydd mewn llefydd oer â deunydd inswleiddio neu becyn lagio, ac archwiliwch nhw'n rheolaidd.

Cadwch eich adeilad yn gynnes trwy gadw'r gwres yn rhedeg yn isel mewn tywydd oer iawn, trefnwch fod rhywun cymwys yn dod i gynnal a chadw eich bwyler, a gwneud yn siŵr bod yr holl reiddiaduron yn gweithio'n iawn.

Adnabod eich plymwyr Cadwch restr o blymwyr cofrestredig wrth law rhag ofn bod angen eu galw mewn argyfwng, gallai cynllun Plymwyr Cymeradwy'r Diwydiant Dŵr fod o gymorth yn hyn o beth.

Ymgyfarwyddwch â'ch defnydd o ddŵr, cymerwch ddarlleniadau rheolaidd o'ch mesurydd (lle bo'n ddiogel gwneud hynny) er mwyn canfod gollyngiadau'n gynnar lle bo modd.

Ystyriwch ddraenio pibellau sydd mewn mannau agored cyn i'r tywydd oer afael, a chaewch y falfiau.

Gall tapiau sy'n diferu a'r gollyngiad lleiaf hyd yn oed gynyddu'r risg bod pibellau'n rhewi. Siaradwch â'ch staff a gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n rhoi gwybod i chi am unrhyw broblemau gyda dŵr yn gollwng, lle mae ffitiadau wedi torri neu lle bo problem gyda'r inswleiddiad.



Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod ble mae'r stoptapiau, a'u bod nhw'n gweithio. Bydd angen cyrraedd atynt yn gyflym, a gwybod sut i'w cau os bydd y gwaethaf yn digwydd. A chymrwch amser i ganfod ymhle mae'r pibellau dŵr, y tu fewn a'r tu fas, fel y gallwch eu harchwilio'n rheolaidd.

Cadwch lygad ar y safle os yw'n wag am gyfnod yn ystod sbel o dywydd oer. Gall gymryd yr amser i wneud hyn leihau effaith pibellau sy'n rhewi neu'n byrstio.